**CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL Y GANGEN**
**8 Tachwedd 2022**

**Cofnodion drafft**

Yn bresennol
Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
David Rees AS (Is-lywydd)
Delyth Jewell AS
Alun Davies AS
Rhianon Passmore AS
Natasha Asghar AS
Sam Rowlands AS

Ysgrifenyddiaeth
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen
Enfys Roberts, Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Dim.

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-22-02 (**DOGFEN 1**)

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

3. **MATERION SY'N CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi

4. **ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU DIWEDDAR**

**Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol**

- *Ymweliad gan Mr Adam Searle, Aelod o'r Cyngor Deddfwriaethol, Senedd De Cymru Newydd*
  *12 Gorffennaf*

  Roedd rhaglen Mr Searle wedi cynnwys cyfarfodydd gyda Llyr Gruffudd AS a John Griffiths AS yn rhinwedd eu rôl fel Cadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, yn ogystal â chyflwyniad ar y Senedd.

- *Sesiwn Hyfforddi Cenhadaeth Sylwedydd Etholiad BIMR*
  *Rhithwir*
  *14-15 Gorffennaf*

  Cymerodd Alun Davies a Delyth Jewell ran yn y sesiwn hyfforddi hon gan roi adborth ar eu profiadau.

  Byddai Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn cadw llygad am sesiynau hyfforddi pellach ynghylch Cenhadaeth Sylwedydd Etholiad a ddarperir gan BIMR, ar gyfer y rheini nad oeddent wedi cael y cyfle eto.

- *Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad (cynhadledd 65) (**Dogfen 2**)*
  *Halifax, Nova Scotia,*
  *20-26 Awst*

  Fel y gŵyr yr Aelodau, dewiswyd Sarah Murphy AS, Laura Anne Jones AS a Huw Irranca-Davies AS i gynrychioli'r Gangen yn y gynhadledd hon. Yn anffodus bu'n rhaid i Laura Anne Jones AS dynnu'n ôl o'r gynhadledd ar fyr rybudd.

  Cymerodd Sarah Murphy AS a Huw Irranca-Davies AS ran lawn yn y gynhadledd a gwnaethant roi adborth ar sut y bu Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn brofiad cadarnhaol a gwerth chweil

iddynt (cynhadledd ryngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad - y tro cyntaf wyneb yn wyneb ers 2019).
Roedd adroddiad ffurfiol y Gynhadledd wedi'i ddosbarthu a byddai’n awr yn cael ei bostio ar dudalennau’r Gangen ar y we.

- *Ymweliad gan Brif Weinidog St Vincent a Grenadines*
  *28 Medi*

  Bu’r Senedd yn falch o groesawu Ralph Gonsalves, Prif Weinidog St Vincent a Grenadines yn dilyn ei ymweliad â Llanbedr Pont Steffan i dderbyn Gradd er Anrhydedd.

  Yn dilyn cyflwyniad ar y Senedd, cyfarfu Mr Gonsalves â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, Vaughan Gething AS a Julie James AS.

- *Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Gibraltar*
  *4–7 Hydref*

  Cynhaliwyd Cynhadledd Ranbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad yn Gibraltar ar y thema "*Denu a Chadw Seneddwragedd Effeithiol yn Rhanbarth BIM*".

  Cynrychiolwyd y Senedd gan Rhianon Passmore AS, Buffy Williams AS a Heledd Fychan AS.

  Soniodd y gynhadledd am nifer o bynciau o ddiddordeb, gan gynnwys yr angen am ddiogelwch ar-lein a chefnogi seneddwyr.

  Cyfrannodd Heledd Fychan AS at sesiwn lle siaradodd am arwyddocâd y diwygiadau arfaethedig i’r Senedd a gwnaeth Rhianon Passmore ymgymryd â dyletswyddau Cadeirio fel Is-Gadeirydd Rhanbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad, yn absenoldeb y Fonesig Maria Miller.

- *Sesiwn CPwD BIMR – dan arweiniad Mark Isherwood AS*
  *Rhithwir*
  *2 Tachwedd*

  Fel cynrychiolydd y Senedd ar rwydwaith Seneddwyr ag Anableddau’r Gymanwlad, arweiniodd Mark Isherwood AS y sesiwn rithwir hon, a

hwyluswyd gan Ysgrifenyddiaeth BIMR.

Roedd y sesiwn: **"Gwrando ar bobl ag anableddau, a'u profiad bywyd o'r rhwystrau i fynediad a chynhwysiant"** yn cynnwys

– cyflwyniad gan Mark Isherwood AS, yn rhoi persbectif seneddwr,
– cyflwyniad gan Dîm Amrywiaeth a Chynhwysiant y Senedd
– cyfraniad gan Georgia Miggins, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, a roddodd gipolwg ar ei phrofiad personol fel un o bobl ifanc Senedd Ieuenctid Cymru sy'n byw ag awtistiaeth.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan Jon Davies, ein Hysgrifennydd BIMR, yn ogystal â chyfranogwyr seneddwyr eraill ag anableddau o ddeddfwrfeydd, gan gynnwys Senedd y DU, yr Alban a Jersey.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

**<u>Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig</u>**

2022

- *Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Rhithwir*
  *14 Tachwedd*

  Roedd cynrychiolwyr Seneddwragedd y Gymanwlad y Gangen wedi'u gwahodd i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Llywio hwn. Roedd disgwyl i'r cyfarfod ganolbwyntio ar ganlyniadau cynhadledd ddiweddar Gibraltar yn ogystal â rhaglen Seneddwragedd y Gymanwlad y rhanbarth a blaenoriaethau ar gyfer 2023.

- *Senedd Ieuenctid y Gymanwlad (Senedd 11)*
  *Trinidad a Tobago*
  *20-24 Tachwedd*

  Nododd y Cadeirydd pa mor falch ydoedd i adrodd bod ein Cangen wedi sicrhau dau le yn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad a fyddai'n cael ei chynnal ymhen pythefnos yn Trinidad.
  Byddai'r gynhadledd, y tro hwn, yn gwrthdaro â chyfarfod preswyl cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru a etholwyd yn ddiweddar, ac felly

byddai'r Senedd yn cael ei chynrychioli yn Nhrinidad gan gyn-aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru, sef Betsan Angell Roberts a Gwion Rhisiart. Estynnodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau'r Gangen ac edrychodd ymlaen at glywed am eu profiadau maes o law.

2023

- *Ymweliad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus San Helena*
  *2 Chwefror*

  Roedd cadarnhad wedi dod i law o'r dyddiad a aildrefnwyd ar gyfer yr ymweliad hwn, y byddai Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd yn arwain arno.

- *Cangen y DU o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad – Gweithdy Masnach ar gyfer Tiriogaethau Tramor, Tiriogaethau Dibynnol y Goron a'r Deddfwrfeydd Datganoledig.*
  *San Steffan*
  *7–9 Chwefror*

  Trafodwyd y gweithdy hwn, sydd hefyd wedi'i aildrefnu ac fe nodwyd – gan na chafwyd unrhyw ddatganiadau pendant o ddiddordeb gan Aelodau o'r Senedd syn aelodau o Bwyllgor yr Economi a Masnach – y byddai'r cyfle hwn bellach yn cael ei hysbysebu'n fwy eang.

  Nodyn: Dewiswyd Alun Davies AS, wedyn, i gynrychioli'r Senedd yn y gweithdy hwn.

- *Seminar San Steffan (seminar 71)*
  *13 – 17 Mawrth*

  Gwnaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y DU gadarnhau'r dyddiadau ar gyfer y rhaglen seminar flaenllaw sydd wedi'i hanelu ar gyfer Aelodau newydd neu Aelodau a etholwyd yn ddiweddar, yr aeth Natasha Asghar AS a Sam Rowlands AS iddi'n fwyaf diweddar. Gofynnodd y Cadeirydd i'r cyfle hwn gael ei agor i'r Aelodau.

  Nodyn: Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan Peredur Owen

Griffiths AS a Carolyn Thomas AS a chyflwynwyd enwebiadau ar eu rhan.

- *Cynhadledd BIMR (a gynhelir gan Gangen y DU o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad)*
  *San Steffan*
  *25 – 28 Ebrill*

  Roedd Cangen y DU o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad wedi cadarnhau y bydd yn cynnal Cynhadledd Ranbarthol Iawn 2023 yn San Steffan. Roedd lleoedd wedi'u dyrannu i'r Senedd ar gyfer pedwar Aelod a byddai blaenoriaeth ar gyfer y rheini, yn y lle cyntaf, yn cael ei rhoi i Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol.

- *Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad*
  *Accra, Ghana*
  *30 Medi – 5 Hydref*

  Nododd y Cadeirydd fod Ghana (yng Nghynhadledd Halifax) wedi'i gadarnhau fel y sawl a fydd yn cynnal Cynhadledd 2023.

  Holwyd faint o leoedd fyddai Cangen y Senedd yn eu cael. Cadarnhaodd Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen mai un lle oedd ar gynnig, gyda'r opsiwn o ychwanegu Aelod Sylwedydd at hyn. Nodwyd, yn dilyn cynnig a gymeradwywyd (gan Senedd Daleithiol y Western Cape) yn y Gynhadledd ddiweddar yn Halifax, fod gan Ganghennau "is-genedlaethol" (fel y Senedd) yr opsiwn i dalu i gael ddirprwy mewn cynadleddau yn y dyfodol.

  **Cam i'w gymryd:** Gofynnwyd i Ysgrifenyddiaeth y Gangen baratoi papur ar hyn i'w drafod yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Gweithredol y Gangen.

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FUSNES ARALL**

   Dim

7. **DYDDIADAU CYFARFODYD YN Y DYFODOL:**

- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gangen – 23 Tachwedd 2022
- Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol y Gangen – Mis Chwefror 2023 (i'w gadarnhau)

**DIWEDD**